Llywodraeth Cymru
Welsh Government

2022

# Golwg ar Ofal Llygaid, y Prif Gynghorydd Optometrig



Prif Gynghorydd Optometrig Cymru, David O'Sullivan

## Annwyl Gydweithwyr,

Ni fu dwy flynedd debyg i'r ddwy flynedd ddiwethaf mewn hanes diweddar. Mae COVID-19 wedi bod yn gyfrifol am y cyfnod mwyaf heriol y mae'r GIG – ac efallai'r wlad gyfan – wedi'i wynebu o fewn cof.

Mae gweithwyr gofal llygaid proffesiynol wedi wynebu heriau enfawr drwy gydol y pandemig, ond mae ymroddiad, amynedd a phroffesiynoldeb staff sydd wedi gweithio'n ddiflino i gadw gwasanaethau i redeg wrth ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd a'u cydweithwyr fel ei gilydd wedi fy nghalonogi. Hoffai Llywodraeth Cymru, a minnau'n arbennig, ddweud diolch.

Bydd y rhifyn 2022 hwn o Golwg ar Ofal Llygaid yn crynhoi rhai o brif lwyddiannau'r ddwy flynedd ddiwethaf a bydd yn edrych ymlaen at sut rydym yn parhau i adfer ac ailadeiladu yn sgil y newidiadau a'r heriau a achoswyd gan y pandemig.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r diweddariad hwn. Mae croeso ichi gysylltu â mi gydag adborth am y cylchlythyr hwn ac i awgrymu unrhyw eitem i'w chynnwys yn rhifyn 2023.



David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig Cymru

## Cynnwys


1. COVID-19 – Llwyddiannau mewn cyfnod heriol
2. Dull Gweithredu yn y Dyfodol a Diwygio'r Contract
3. Ystadegau Gofal Llygaid Allweddol
4. Technoleg Newydd: Cofnod Electronig am Gleifion ac 'Attend Anywhere'
5. Cymru Wyrddach
6. Manylion cyswllt ac adnoddau


## COVID-19 – Llwyddiannau mewn cyfnod heriol

Pan gydiodd COVID-19 yn y byd yn gynnar yn 2020 gan amharu ar ein bywydau i gyd ac yn enwedig ar y sector gofal iechyd, ni allai neb fod wedi rhagweld sut y byddai'r sefyllfa'n esblygu na pha mor hir y byddai'n para. Bron yn union ddwy flynedd yn ddiweddarach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun 'Gyda'n Gilydd at Ddyfodol Mwy Diogel', sy'n nodi'r strategaeth ar gyfer pontio yn y tymor hir o bandemig i endemig.

### Y Cyfnod Clo a'r Cyfnod Coch

Ym mis Mawrth 2020, yn ystod y cyfnod clo cyntaf ledled y DU, cafodd yr holl apwyntiadau optometreg nad oeddent yn hanfodol eu hatal dros dro. O ddechrau'r pandemig, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda'r proffesiwn gofal llygaid, a ymatebodd yn gyflym i'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym i roi trefniadau gweithio diogel ar waith a galluogi parhad gofal. Ymatebodd byrddau

iechyd i'r her yn uniongyrchol, gan wneud newidiadau sylweddol i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal llygaid brys a hanfodol yn ddiogel. Ad-drefnwyd gwasanaethau optometreg yn fodel clwstwr, gan sicrhau bod o leiaf un a hyd at dri phractis fesul clwstwr yn parhau i ddarparu gwasanaethau gofal llygaid brys a hanfodol. Rhoddwyd cymorth ymarferol i bractisau drwy ddarparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE). Cawsant hefyd eu cefnogi'n ariannol gydag incwm misol gan y GIG yn seiliedig ar hawliadau cyfartalog y practis i'r GIG dros y cyfnod tair blynedd blaenorol ar gyfer Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru.

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd llygaid acíwt, datblygodd byrddau iechyd lwybrau newydd gan ddefnyddio sgiliau optometryddion, ac yn arbennig cymwysterau ychwanegol ym meysydd fel rhagnodi annibynnol, glawcoma a retina meddygol. Datblygwyd gwasanaethau gofal llygaid brys yn y cartref yn ystod y cyfnod Coch er mwyn darparu gofal brys i'r grŵp hwn o gleifion a oedd yn agored i niwed. Roedd newidiadau eraill a roddwyd ar waith yn gyflym yn ystod y cyfnod Coch yn cynnwys optometryddion yn gweithio ar y cyd ag offthalmoleg i ddarparu gwasanaeth anafiadau i'r llygaid mewn practisau optometreg; gofal ar y cyd ar gyfer glawcoma drwy gofnodion electronig am gleifion; a llwybr cenedlaethol o optometryddion yn monitro menywod beichiog a oedd â diabetes ac nad oeddent yn gallu cael eu sgrinio gan wasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn ystod yr amharu ar wasanaethau arferol.

Wrth i'r cyfnod clo cyntaf gael ei lacio ym mis Mehefin 2020, symudodd gwasanaethau optometreg yn raddol i gyfnod adfer Oren. Roedd practisau optometreg yn blaenoriaethu cleifion i sicrhau bod y rhai â'r angen clinigol mwyaf yn cael eu gweld yn gyntaf, ond roedd gwasanaethau arferol yn ailddechrau lle'r oedd capasiti ar gael i wneud hynny.

Yn y cyfamser, gweithiodd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru gyda'r proffesiynau i sicrhau bod cynlluniau adfer yn cael eu datblygu yn barod i ailddechrau gwasanaethau ar yr adeg iawn. Erbyn haf 2021, roedd gwasanaethau optometreg wyneb yn wyneb wedi dychwelyd i raddau helaeth i lefelau cyn y pandemig.

### Yr ysbryd cymunedol

Drwy gydol y pandemig, fe'm trawyd gan barodrwydd cydweithwyr i fynd gam ymhellach nid yn unig i gadw gwasanaethau i redeg ond i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu cymunedau. Hoffwn ddiolch i bawb ym maes gofal llygaid a ddaeth ynghyd a darparu cymorth yr oedd mawr ei angen i'w cymunedau. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 daeth llawer o optometryddion yn wirfoddolwyr cymunedol, gan weithio gyda chydweithwyr fferyllol i ddanfon meddyginiaethau i bobl a oedd yn



gwarchod eu hunain. Gwnaeth y cymorth hanfodol hwn wahaniaeth gwirioneddol i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Roedd ysbryd cymunedol gan optometryddion Cymru hefyd yn amlwg iawn; gyda llawer o weithwyr gofal llygaid proffesiynol yn ymuno â'r rhaglen brechu torfol i roi brechiadau i'r cyhoedd yng Nghymru a bu i nifer ohonynt ddychwelyd i ymuno â'r ymgyrch brechiadau atgyfnerthu mewn ymateb i'r amrywiolyn Omicron ym mis Rhagfyr 2021. Roeddwn yn falch o fod yn aelod o'r tîm brechu ac i chwarae fy rhan fy hun wrth ymuno â'r mesur hanfodol hwn ar gyfer iechyd y cyhoedd.

Nid yw'r pandemig ar ben eto, ac mae heriau'n parhau. Rydym i gyd wedi gweithio ar y cyd ac yn gyflym gyda'r holl randdeiliaid drwy'r cyfnod adfer, yr anawsterau gyda PPE, y gweithdrefnau rheoli heintiau a'r cyfnodau clo lleol a chenedlaethol. O ganlyniad i adfyd, gwelsom ddatblygiad llwybrau newydd megis gofal brys mewn lleoliadau cartref a Rhagnodi Annibynnol mewn practisau optometreg hyb.

### Tîm llwyddiannus

Ar nodyn cadarnhaol, yn 2021 gwelwyd gweithwyr gofal llygaid proffesiynol yng Nghymru yn cael cydnabyddiaeth haeddiannol. Yng Ngwobrau'r Optegwyr enillodd yr optometryddion annibynnol o Gymru, sef Probert & Williams Wobr y Gwasanaeth Optegol Uwch ac roedd cynrychiolaeth gref o Gymru ymhlith gweddill y rheini ar y rhestr fer. Llongyfarchiadau hefyd i Dimau Optometreg Gofal Sylfaenol a Glawcoma Gofal Eilaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Gareth Bulpin, Pensaer Cenedlaethol Digido Gofal Llygaid, a enillodd y wobr fawreddog 'Rhagoriaeth mewn Gofal Glawcoma' yng Ngwobrau Gofal Glawcoma y DU 2022.

### Tuag at adfer a newid hanfodol

Erbyn hydref 2021, roedd apwyntiadau optometreg wyneb yn wyneb bron yn ôl i'r lefelau cyn COVID wrth gyfrif am fesurau newydd ar waith megis amser a neilltuwyd ar gyfer gwisgo a diosg PPE. Parhaodd hyn yn ystod y don Omicron dros aeaf 2021-22. Mae cynyddu nifer y bobl sy'n cael gofal yn agos i'w cartrefi yn ystod cyfnod heriol y pandemig yn dyst i lwyddiant ein polisi optometreg ac ymroddiad staff gofal llygaid GIG Cymru.

Mae COVID-19 yn dal i fod gyda ni dros ddwy flynedd ar ôl y cyfnod clo cyntaf, er hynny mae gobaith yn parhau bod y clefyd yn symud o bandemig byd-eang i haint sy'n endemig. Ledled Cymru, mae newidiadau anochel i wasanaethau mewn adrannau llygaid ysbytai wedi digwydd er mwyn adfer lefelau perfformiad digonol yn erbyn y mesurau gofal iechyd llygaid. Mae rhai byrddau iechyd yn rhoi gweithgareddau ar gontract allanol i ddarparwyr eraill, gan gynnwys y sector annibynnol, ac maent yn darparu sesiynau ychwanegol yn lleol ar y penwythnosau a chyda'r nos i leihau amseroedd aros.

Er mwyn i wasanaethau gofal llygaid fod yn gynaliadwy ac er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol, mae angen defnyddio'r gweithlu ar draws lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd yn llawn, gyda phawb yn gweithio hyd eithaf eu cymwysterau clinigol. Nid oes gennyf amheuaeth nad yw optometryddion a gweithwyr proffesiynol eraill yn fwy na pharod i ymateb i'r her hon. Mae heriau cyffrous o'n blaenau ac anogaf bawb yn y proffesiwn gofal llygaid i ystyried sut y gallent gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau. Sy'n dod â mi'n daclus ymlaen at y canlynol:

## Dull Gweithredu yn y Dyfodol a Diwygio'r Contract

Nid ydym bellach yn byw yn y byd y cynlluniwyd y GIG ar ei gyfer. Mae pobl yn byw yn hwy, gall meddygaeth wneud llawer mwy, mae technoleg yn trawsnewid ein bywydau, ac mae ein ffordd o fyw a'n disgwyliadau wedi newid. Ein huchelgais o 2020 ymlaen yw dod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, wedi'u cynllunio a'u darparu yn seiliedig ar anghenion a dewisiadau unigolion, gyda llawer mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach.

Mae gan optometreg rôl allweddol i'w chwarae o ran cyflawni nodau '*Cymru Iachach*' a thrawsnewid gwasanaethau gofal llygaid drwy ddarparu gofal llygaid yn nes at y cartref. Mae'r rôl wedi datblygu'n sylweddol ers cyflwyno Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru, gan alluogi optometreg i fod yn bwynt cyswllt cyntaf mewn gofal sylfaenol i gleifion â phroblemau llygaid a helpu i ganfod, trin a rheoli clefydau llygaid yn gynnar er mwyn atal atgyfeiriadau diangen a lleihau rhestrau aros.

Wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu newydd ar gyfer 2021-2026, mae Datganiad Llesiant gyda 10 amcan polisi y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i wneud y mwyaf o'i chyfraniad i saith nod llesiant hirdymor Cymru a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Y cyntaf o'r rhain yw'r amcan i ddarparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy, o ansawdd uchel. Bydd ein gwaith parhaus ar ddiwygio'r contract a chyflwyno gwasanaethau yn y gymuned yn cyd-fynd â'r ddogfen newydd hon drwy barhau i gefnogi gweithwyr iechyd, diogelu'r GIG, integreiddio gwasanaethau ymhellach, gwella hygyrchedd a chefnogi pobl i fyw bywydau iach.

Fel rhan o'r newid trawsnewidiol hwn, bydd diwygio'r contract yn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd llygaid GIG Cymru yn llawn, gan symud i fodel gwasanaeth sy'n briodol yn glinigol yn seiliedig ar egwyddorion darbodus, ac sy'n cyd-fynd â ***'Cymru Iachach'*** a saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd newidiadau deddfwriaethol i Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn galluogi diagnosis o ystod ehangach o gyflyrau llygaid mewn gofal sylfaenol, a thrin a rheoli'r cyflyrau hynny, a byddant yn sail i'r cwmpas angenrheidiol o wasanaethau optometreg ym mhob clwstwr i alluogi pob agwedd ar ddiwygio'r contract.

Er bod heriau o ran sicrhau mynediad amserol i gleifion at yr holl wasanaethau gofal llygaid, mae pob aelod o'r tîm clinigol sy'n darparu gwasanaethau ar hyd llwybr y claf yn cydweithredu i weithio hyd eithaf ei drwydded glinigol berthnasol. Mae perthnasoedd proffesiynol ehangach a dyfnach yn cael eu meithrin a'u cryfhau gan dimau clinigol sy'n defnyddio eu set sgiliau lawn ac yn gweithio mewn ffyrdd newydd ac arloesol.

Mae adegau cyffrous o'n blaenau wrth i waith barhau ar y cyd i gytuno ar fanylion llwybrau clinigol yn y dyfodol gan ddod â gofal sylfaenol ac eilaidd ynghyd i ddarparu gwasanaethau i gleifion sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Drwy eu Grwpiau Cydweithredol Gofal Llygaid lleol, bydd byrddau iechyd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cynnydd yn dal i gael ei wneud yn erbyn argymhellion ***'Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid'*** y tu hwnt i 2020 a byddant yn adrodd ar gynnydd blynyddol i Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2020 ymlaen.

## Diwygio'r Contract

Blaenoriaeth allweddol ar gyfer dyfodol gofal llygaid yng Nghymru yw symud o ddarparu gwasanaethau mewn ysbytai i ddarparu gwasanaethau mewn gofal sylfaenol. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn apwyntiadau ysbyty a'r oedi gydag apwyntiadau dilynol, ac yn rhyddhau adnoddau meddygon ymgynghorol arbenigol a meddygon teulu. Mae ymestyn y ddarpariaeth optometreg i ofal llygaid holistaidd, sy'n cynnwys darparu profion golwg, diagnosis, triniaeth, rheolaeth barhaus, gofal ar y cyd, atal a chyngor ar iechyd a llesiant, yn ganolog i ymrwymiad polisi Llywodraeth Cymru. Byddwn yn galluogi cynnydd yng nghwmpas y gwasanaethau sy'n cael eu hystyried yn 'Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol' yng Nghymru, gan gryfhau'n genedlaethol ymgysylltiad optometryddion ag iechyd llygaid unigolion, a'r cymorth a'r gofal y maent yn ei roi i hynny, a dylanwadu ar driniaeth a gofal parhaus.

Bydd diwygio'r contract optometreg yn helpu i annog gwasanaethau optometreg o ansawdd uwch a sicrhau manteision cadarnhaol i weithwyr iechyd proffesiynol a dinasyddion, gan wireddu'n llawn yr uchelgais a nodir yn '***Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol***.'

Er bod Diwygio Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn newid enfawr i'r model gwasanaeth, mae Optometreg Cymru, y corff trosfwaol sy'n cynrychioli optometryddion ac optegwyr fferyllol, yn ei dderbyn yn eang. Bydd y newid yn rhoi sylfaen sefydlog i fusnes y proffesiwn a bydd yn rhoi sicrwydd i GIG Cymru y bydd y gwasanaethau a ddarperir yn deg ac yn gyson. Bydd yn galluogi GIG Cymru i gyflwyno dull gweithredu ar draws y system ar gyfer darparu gwasanaethau offthalmig, gan wella ymgysylltiad â'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd llygaid integredig o ansawdd i bob dinesydd ledled Cymru. Bydd hefyd yn sbarduno newidiadau i'r system gan ysgogi gwelliannau i ddinasyddion, gweithwyr iechyd proffesiynol, GIG Cymru ac Awdurdodau Lleol fel ei gilydd.

## Ystadegau Gofal Llygaid Allweddol

Cyhoeddwyd y rhifyn diweddaraf o fwletin Ystadegau Synhwyraidd ym mis Medi 2021. Mae'r adroddiad hwn, a gyhoeddir bob dwy flynedd, yn rhoi crynodeb o'r ystadegau sy'n ymwneud â gofal llygaid a gwasanaethau gofal clyw, gan gynnwys Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, gwasanaethau gofal llygaid Cymru (Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru) a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Mae'r ystadegau hyn yn helpu i fonitro'r modd y darperir gwasanaethau cyfredol ac yn darparu tystiolaeth y gellir ei defnyddio i werthuso polisïau iechyd llygaid cyfredol.

Fel y gellid disgwyl, dangosodd y setiau data effaith amlwg y pandemig, gyda lefelau gweithgarwch yn gostwng yn 2020-21.

Yn 2019-20, talwyd am 813,922 o brofion golwg Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol gan GIG Cymru, ond gostyngodd hyn dros hanner i 348,740 yn 2020-21. Cafwyd darlun tebyg ar gyfer archwiliadau a gynhaliwyd o dan Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, gyda 201,208 wedi'u cynnal yn 2019-20 ac 81,785 yn 2020-21.

O ystyried yr amharu ar wasanaethau gofal llygaid arferol a achoswyd gan y pandemig, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn annog y cyhoedd yng Nghymru i wirio eu llygaid yn rheolaidd i helpu i nodi unrhyw broblemau iechyd llygaid yn gynnar, ac yn y pen draw i leihau colli golwg heb fod angen.

**Darllenwch yr adroddiad llawn ar llyw.cymru**

## Technoleg Newydd: Cofnod Electronig am Gleifion ac 'Attend Anywhere'

Mae byrddau iechyd yn defnyddio technolegau newydd gan gynnwys 'Open Eyes' (cofnodion ac atgyfeiriadau electronig am gleifion), 'Consultant Connect' ac 'Attend Anywhere' (meddalwedd ymgynghori o bell). Mae'r defnydd a'r lledaeniad cyflym hwn o dechnoleg newydd mewn gofal llygaid wedi cyflwyno model newydd o ddarparu gofal iechyd mewn ffordd gyfleus a darbodus, a bydd yn aros yn ei le ymhell i'r dyfodol. Mae apwyntiadau o bell eisoes wedi bod yn boblogaidd gyda chleifion; canfu ymchwil i ganfyddiadau'r cyhoedd gan y Cyngor Optegol Cyffredinol ledled y DU y byddai 70% o bobl yn ystyried mynychu apwyntiad dros y ffôn neu fideo yn ystod y pandemig, gyda dros 60% o bobl yn dweud y byddent yn ystyried defnyddio gwasanaethau o'r fath ar ôl i gyfyngiadau COVID gael eu llacio. Bydd systemau digidol yn cefnogi byrddau iechyd i gyflawni eu cynlluniau gofal llygaid ac yn galluogi cleifion i gael gofal amserol a darbodus sy'n cyd-fynd â dogfennau strategol allweddol gan gynnwys ***'Cymru Iachach'***.

Mae apwyntiadau gofal iechyd 'Attend Anywhere' drwy fideogynadledda wedi lleihau'r angen am gyswllt wyneb yn wyneb rhwng cleifion a darparwyr gofal yn ystod y pandemig. Gan ddefnyddio cyfuniad o optometryddion, tele-brysbennu a chlinigau mynediad cyflym, mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi gallu adolygu a thrin y rhan fwyaf o gleifion yn y gymuned, sydd yn ei dro wedi rhyddhau capasiti ysbytai i'r cleifion sydd â'r angen mwyaf.

Yn ogystal, Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno Cofnod Electronig cenedlaethol am Gleifion a system Atgyfeirio Electronig ddigidol ar gyfer gofal llygaid, sef system sy'n seiliedig ar gymylau i foderneiddio'r broses atgyfeirio a chofnodi gofal llygaid. Bydd o fudd i gleifion a gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gyflymu amseroedd triniaeth ac atgyfeirio a gwella canlyniadau i gleifion. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £4.801m yn y prosiect rhwng blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2024/25.

## Cymru Wyrddach

Mae gan aelodau'r proffesiwn optegol ran bwysig i'w chwarae wrth wneud Cymru'n lle gwyrddach i fyw ynddo.

Wrth ddatgan Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru yn 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newid yn yr hinsawdd yn ffocws polisi craidd. Yn dilyn etholiad 2021, creodd y Prif Weinidog Mark Drakeford bortffolio newydd, sef y Gweinidog Newid Hinsawdd, a chyhoeddodd y byddai'r amgylchedd wrth wraidd y broses benderfynu yn y llywodraeth newydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hyrwyddo camau gweithredu a pholisïau mewn optometreg sy'n cefnogi datgarboneiddio fel rhan o'r ymrwymiad i wneud GIG Cymru yn Sero Net erbyn 2030. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried datgarboneiddio a chynaliadwyedd wrth ddiwygio'r contract yn barhaus ar gyfer optometreg.

Dechreuodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gynllun peilot o Gynllun Gwobrwyo a Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach yn ystod chwarter cyntaf 2022, sy'n cynnwys fframwaith o gamau gweithredu y gall practisau gofal sylfaenol eu cymryd i wneud eu practis yn fwy cynaliadwy ac i ennill cydnabyddiaeth o hyn. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu sy'n benodol i optometreg. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob contractwr optometreg i ymgysylltu â'r Fframwaith ar ôl iddo gael ei gyhoeddi'n llawn ym mis Mehefin ac i adolygu ffyrdd eu practisau o weithio.

Gall optometryddion annog a hwyluso ymddygiadau gwyrddach ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys drwy nifer o fentrau ailgylchu ar gyfer sbectols a lensys cyffwrdd a'u pecynnu.

Sylwer, ym mis Awst 2020, bod Vision Aid Overseas wedi dod â'i chynllun ailgylchu i ben yn y DU ac nad yw bellach yn derbyn sbectols a ddefnyddiwyd. Bydd yr elusen nawr yn canolbwyntio ar feysydd codi arian eraill. Anogir practisau i ystyried cynlluniau amgen ar gyfer ailgylchu sbectols. Gall sefydliadau elusennol lleol hefyd dderbyn sbectols diangen neu sbectols ar ddiwedd eu hoes.

## Manylion cyswllt ac adnoddau

### Llywodraeth Cymru

Adborth ac eitemau i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf o Golwg ar Ofal Llygaid:
**HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru**

Cysylltwch â'ch bwrdd iechyd lleol i siarad â'ch cynghorwyr optometreg lleol a chysylltiadau gofal sylfaenol eraill.

### Dolenni defnyddiol:

**Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**

**Adnoddau COVID-19 Coleg yr Optometryddion**

**Taflenni ac adnoddau i gleifion Coleg yr Optometryddion**

Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol

**Gwybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 y Cyngor Optegol Cyffredinol**

**Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026**

**Iechyd synhwyraidd (ystadegau gofal llygaid a chlyw) Ebrill 2019 i Fawrth 2021**

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU**

**Gyda'n Gilydd at Ddyfodol Mwy Diogel: COVID-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG43278, ISBN digidol 978-1-80364-391-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg